



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Credoau crefyddol ac agweddau at roi organau

Ymchwil crynodeb

Ymchwil gymdeithasol

Rhif y ddogfen: 44/2015

Aeth y gwaith ymchwil hwn ati i edrych ar y berthynas rhwng credoau crefyddol a rhoi organau, gyda phwyslais arbennig ar gydsyniad tybiedig.

Edrychwyd ar safbwynt pob crefydd, cyn adolygu gweithiau ymchwil rhyngwladol sy'n astudio'r berthynas rhwng crefydd a rhoi organau ar draws y gwahanol systemau o gydsyniad. Hefyd cyflwynir canfyddiadau arolwg bychan ar Gristnogion yng Nghymru. Nod yr arolwg hwn oedd llenwi'r bwlch yn y wybodaeth am y gwaith ymgysylltu sy'n cael ei wneud gyda grwpiau ffydd a chymunedau o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ledled Cymru.

Mae'r ymchwil yn taflu goleuni ar y rhyngweithio cymhleth rhwng crefydd, diwylliant ac ethnigrwydd o ran ffurfio agweddau tuag at roi organau.

Crefydd a rhoi organau

Mewn theori, mae'r holl brif grefyddau yng Nghymru (Cristnogaeth, Islam, Hindwaeth, Sikhiaeth, Bwdhaeth ac Iddewiaeth) yn cefnogi rhoi organau, ond mae'r farn yng nghrefydd Islam ac Iddewiaeth yn rhanedig o hyd, a'r prif broblemau yw credoau crefyddol penodol o ran sut ddylid trin corff marw a dadlau am farwolaeth yr ymennydd. Efallai y daw'r pryder olaf i'r amlwg mewn traddodiadau Bwdhaidd penodol hefyd, ac ymhlith rhai diwinyddion Catholig.

Crefydd a chydsyniad tybiedig

Ychydig a wyddwn am farn y prif grefyddau ar gydsyniad tybiedig, ond mae'r dystiolaeth gyfyngedig gan yr arweinwyr ffydd yn awgrymu bod y safbwyntiau'n anffafriol o bosib oherwydd yr ymdeimlad bod y ddeddfwriaeth yn tanseilio dewis unigol. Hefyd, i arweinwyr y ffydd Gristnogol yn arbennig, ceir cred bod y rhinwedd o roi rhodd sy'n rhan gynhenid o roi organau'n cael ei danseilio gan y ddeddfwriaeth hon.

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Cristnogaeth a rhoi organau

Ychydig iawn o dystiolaeth bendant sydd ar gael am rôl Cristnogaeth mewn rhoi organau. Mae gan y gwledydd Cristnogol yn bennaf yn Ewrop ac yn yr Unol Daleithiau systemau trawsblannu sydd wedi'u sefydlu'n dda gan amlaf, a chyfraddau uwch o roi a phoblogaethau sydd ag agweddau cadarnhaol tuag at roi. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu nad yw'r ffydd Gristnogol yn chwarae llawer o ran mewn parodrwydd i roi; mae'n cael ei ystyried yn fwy fel mater i'r unigolyn.

O ran yr hyn a wyddom am rôl y ffydd Gristnogol, mae gwaith ymchwil yn awgrymu mai cryfder cred grefyddol (neu'r elfen geidwadol ar y gred efallai) yn hytrach na'r ddysgeidiaeth grefyddol sy'n gweithredu fel rhwystr sy'n atal rhoi.

Hefyd mae gwaith ymchwil wedi awgrymu bod dehongli perthynas dyn â Duw yn fwy tebygol o gael ei nodi fel rhwystr sy'n atal rhoi na dehongliad o ddysgeidiaeth grefyddol.

Canfuwyd bod credoau am yr angen am warchod integriti'r corff, neu roi organau'n ymyrryd â threfniadau cynhebrwng traddodiadol, yn rhwystrau sylweddol sy'n atal rhoi hefyd.

Efallai bod y rhwystrau hyn yn fwy

arwyddocaol ymhlith pobl o dras Du Affricanaidd a Du Caribiaidd nac ymhlith pobl Wyn (yn y DU a'r Unol Daleithiau), gydag integriti'r corff yn rhwystr hynod arwyddocaol, ar draws y credoau crefyddol.

Hefyd mae dylanwad normau goddrychol (credoau tybiedig y rhai agosaf atoch chi) ar grwpiau o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn golygu bod credoau crefyddol yn gallu cael dylanwad anuniongyrchol o bosib ar benderfyniadau i roi. Er enghraifft, mae tybio bod rhieni'n gwrthwynebu rhoi, ar sail grefyddol neu ddiwylliannol o bosib, yn gweithredu fel rhwystr i unigolyn sydd, mewn theori, yn meddu ar agwedd gadarnhaol tuag at roi.

Cristnogaeth a chydysyniad tybiedig

Mae gwaith ymchwil cyfyngedig ymhlith cynrychiolwyr y ffydd Gristnogol yn y DU yn awgrymu bod yr agweddau at gydsyniad tybiedig yn anffafriol o bosib oherwydd y dybiaeth bod y ddeddfwriaeth yn tanseilio'r rhinwedd o 'rodd o fywyd' a dewis unigol.

Canfu arolwg bychan ar Gristnogion yng Nghymru, a gynhaliwyd fel rhan o'r gwaith ymchwil hwn, bod mwyafrif yr ymatebwyr o blaid cydsyniad tybiedig, gan gredu na fydd yn tanseilio dewis unigol na'r rhinwedd o rodd o fywyd. Fodd bynnag, roedd y rhai a oedd yn erbyn y newid deddfwriaethol yn ei wrthwynebu ar sail eu tybiaeth bod y

ddeddfwriaeth yn tanseilio dewis unigol, gan roi gormod o reolaeth i'r llywodraeth.

Efallai bod y rhai sydd eisoes yn profi rhwystrau niferus o ran rhoi yn gyffredinol yn llai tebygol o fod ag agweddau ffafriol tuag at ddeddfwriaeth o'r fath.

Islam a rhoi organau

Er bod mwyafrif y gwledydd Mwslimaidd wedi gwahardd rhoi organau yn fyw ac yn farw, mae'r farn yn rhanedig o hyd ymhlith ysgolheigion, yn bennaf oherwydd y gwahaniaeth barn am y diffiniad o farwolaeth.

Mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod cwestiynau am ganiatâd crefyddol yn gweithredu fel rhwystr mawr sy'n atal rhoi organau ymhlith Mwslimiaid mewn gwledydd Mwslimaidd ac mewn gwledydd eraill, er gwaetha'r ffaith bod *fatwas* yn cymeradwyo rhoi organau.

Mynegwyd diffyg caniatâd tybiedig yn fwy cyffredin mewn gwaith ymchwil ymhlith pobl yn hanu o Dde Asia. Efallai mai'r rheswm am hyn yw bod mwyafrif y Mwslimiaid yn y DU o dras Indo-Pacistanaid ond mae gan yr ysgolheigion agweddau mwy ceidwadol yn gyffredinol tuag at roi.

Ni chanfu gwaith ymchwil yn y DU lawer o wybodaeth am y *fatwas* presennol yn gwahardd rhoi, gan awgrymu bod eu

dylanwad yn gyfyngedig o bosib.

Canfuwyd mai testun crefyddol a chyingor o'r mosg lleol oedd fwyaf dylanwadol mewn penderfyniadau am roi; ac wedyn dylanwad y teulu.

Seiliwyd diffyg caniatâd crefyddol tybiedig ar y dehongliad o destun crefyddol ac roedd yn troi o amgylch yr angen am warchod integriti'r corff ac am ei gladdu cyn gynted â phosib.

Efallai ei bod yn anodd goresgyn y rhwystrau oherwydd dylanwad y testunau crefyddol ar arwain penderfyniadau am roi organau.

Canfu'r gwaith ymchwil cyfyngedig ymhlith arweinwyr y ffydd farn debyg i'r boblogaeth ehangach. Mae cynrychiolwyr y ffydd wedi dadlau bod angen gwneud mwy er mwyn sicrhau bod gwybodaeth am ganiatâd i roi organau'n cyrraedd llawr gwlad.

Islam a chydsyniad tybiedig

Ychydig a wyddwn am hyn ond mae gwaith ymchwil yn y DU wedi canfod bod cynrychiolwyr y ffydd yn gefnogol i roi organau ond yn gwrthwynebu cydsyniad tybiedig ar sail foesol, oherwydd y farn ei fod yn tanseilio dewis unigol.

Mae Mwslimiaid yn Singapore wedi cael eu cynnwys yn y Ddeddf Trawsblaniadau

Organau Dynol ers 2008, wedi ymgyrchoedd i gael eu cynnwys yn ei deddfwriaeth ar gyfer cydsyniad tybiedig. Cyn hyn, roedd system flaenoriaeth Singapore yn peri anfantais sylweddol i Fwslimiaid Maleiaidd oherwydd bod y rhai nad oeddent yn addo rhoi'n cael blaenoriaeth is ar restr aros y rhoddwyr. Fodd bynnag, bach fu'r gwelliant hyd yma yng nghyfraddau rhoi'r grŵp hwn ers eu cynnwys. Ni chanfuwyd unrhyw ymchwil sy'n edrych ar agweddau'r cyhoedd at roi organau ac at gydsyniad tybiedig yn Singapore.

Hindwaeth, Sikhiaeth a rhoi organau

Nid oes dim mewn Hindwaeth nac mewn Sikhiaeth sy'n gwahardd rhoi organau.

Mae'r rhwystrau sy'n atal rhoi yn India - sydd â phoblogaethau Hindwaidd a Sikh mawr - wedi cael eu priodoli i ffactorau ehangach, gan gynnwys diffyg gwybodaeth am roi a marwolaeth yr ymennydd, seilwaith gofal iechyd cyhoeddus a thrawsblannu gwael a'r derbyn diwylliannol ar fasnachu organau'n anghyfreithlon, sy'n gwneud rhoi yn fyw yn norm.

Canfu ymchwil bod y rhwystrau sy'n atal rhoi'n debygol o fod yn gysylltiedig ag integriti'r corff a'r teulu'n gwrthod, yn hytrach na phroblemau'n ymwneud â chaniatâd crefyddol, gan awgrymu bod pryderon am roi'n fwy diwylliannol na chrefyddol eu natur.

Mae gwaith ymchwil ymhlith Hindwiaid a Sikhiaid yn y DU yn cefnogi hyn, gydag integriti'r corff a'r teulu'n gwrthod yn fwy tebygol o gael eu nodi fel rhwystrau na diffyg caniatâd crefyddol. Fodd bynnag, codwyd cwestiynau am ganiatâd crefyddol yr un fath, ond ychydig yn fwy felly ymhlith Hindwiaid.

Nodwyd cydsyniad y teulu fel elfen bwysig i Hindwiaid a Sikhiaid, ond yn fwy arwyddocaol i Hindwiaid, gyda pharch at bobl hŷn yn cael ei nodi'n gyffredin fel rheswm dros amharodrwydd i roi.

Hindwaeth, Sikhiaeth a chydsyniad tybiedig

Mae'r ychydig ymchwil sydd ar gael ymhlith cynrychiolwyr y ffydd Hindw yn y DU yn awgrymu nad yw'r system gydsyniad hon yn cael ei ffafrio oherwydd y gred ei bod yn tanseilio dewis unigol.

Bwdhaeth a rhoi organau

Nid oes unrhyw beth mewn Bwdhaeth sy'n gwahardd rhoi organau, ond efallai y bydd problemau perthnasol i ddiffinio marwolaeth

yn amlwg mewn rhai traddodiadau.

Ceir cyfraddau rhoi isel yng ngwledydd Bwdhaidd yn bennaf de ddwyrain Asia, gyda gofal iechyd cyhoeddus a seilwaith trawsblannu cyfyngedig yn gyffredinol. Fodd bynnag, ceir rhwystrau diwylliannol enfawr sy'n atal rhoi hefyd, oherwydd nad ydynt yn derbyn marwolaeth yr ymennydd. Nid yw'n cael ei gydnabod yn gyfreithiol yn Tsieina o hyd a gwelwyd ei fod yn rhwystr mawr, sy'n atal rhoi organau, mewn gwaith ymchwil a gynhaliwyd yn Japan.

Roedd y safbwyntiau diwylliannol cysylltiedig â Chonffiwisiaeth, fel yr angen am warchod integriti'r corff oherwydd ffyddlondeb mab / merch (y rhinwedd o barch at rieni a hynafiaid unigolyn) yn rhwystr cyffredin o ran y parodrwydd i roi mewn gwaith ymchwil a gynhaliwyd yn Tsieina, er gwaetha'r ffaith bod agwedd gadarnhaol tuag at roi yno.

Gwelwyd fod y credoau hyn yn rhwystrau mewn gwaith ymchwil a gynhaliwyd ymhlith unigolion o dras Tsieineaidd sy'n byw mewn llefydd eraill hefyd.

Bwdhaeth a chydsyniad tybiedig

Mae'r ychydig ymchwil sydd ar gael ymhlith cynrychiolwyr y ffydd Bwdhaeth yn y DU yn awgrymu nad yw'r system gydsyniad hon yn cael ei ffafrio oherwydd y gred ei bod yn tanseilio dewis yr unigolyn.

Iddewiaeth a rhoi organau

Mae'r safbwyntiau am roi organau'n parhau'n rhanedig mewn Iddewiaeth, gyda rhai'n gwrthwynebu rhoi oherwydd y gred am sut ddylid trin corff marw, a'r gwahanol ddiffiniadau o farwolaeth. Mae cyfraddau rhoi organau isel yn Israel wedi cael eu priodoli i ddiffyg derbyn marwolaeth yr ymennydd.

Mae gwaith ymchwil yn dangos bod y gred bod rhoi organau wedi'i wahardd o dan Iddewiaeth oherwydd y diffiniad Halacig o farwolaeth yn creu rhwystr sylweddol o ran rhoi.

Gwelwyd bod y dadlau am farwolaeth yr ymennydd yn cael effaith negyddol ar gyfraddau rhoi hefyd, oherwydd amharodrwydd ymhlith staff meddygol yn Israel i drafod pynciau cysylltiedig â rhoi â theuluoedd, yn enwedig marwolaeth yr ymennydd. Mae hynny'n cyfyngu ar gyfleoedd i roi.

Canfu gwaith ymchwil a gynhaliwyd mewn llefydd eraill mai tybio bod rhoi wedi'i wahardd yn grefyddol a'r credoau cysylltiedig â'r angen am warchod integriti'r corff oedd y rhesymau a nodwyd dros amharodrwydd i roi.

Iddewiaeth a chydysniad tybiedig

Mae trafodaethau gweinidogol diweddar yn Israel am ddeddfwriaeth bosib i gyflwyno cydsyniad tybiedig wedi arwain at wrthod y Mesur.

Mae'r ychydig ymchwil sydd ar gael ymhlith cynrychiolwyr y ffydd Iddewig yn y DU yn awgrymu nad yw'r system gydsyniad yn cael ei ffafrio oherwydd y gred ei bod yn tanseilio dewis unigol.

Rhwystrau eraill sy'n atal rhoi organau

O ystyried bod y cyfraddau rhoi organau ymhlith grwpiau o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (DLIE) yn tueddu i fod yn is nag ar gyfer y boblogaeth yn gyffredinol, canfu'r adolygiad hefyd nifer o rwystrau eraill sy'n sylweddol ymhlith grwpiau DLIE yn y DU, heb ystyried eu cred grefyddol, gan gynnwys y canlynol:

- Diffyg dealltwriaeth ac ofn cysylltiedig â'r broses drawsblannu yn gyffredinol.
- Sensitifrwydd neu dabw cysylltiedig â'r mater.
- Dim ffydd mewn meddygaeth.

Mae'n bwysig bod y rhwystrau hyn yn cael sylw os yw'r strategaethau cyfathrebu am geisio mynd i'r afael â'r anfantais gyfredol y mae grwpiau DLIE yn ei phrofi mewn

perthynas â rhoi organau, gyda grwpiau DLIE yn fwy tebygol o fod angen trawsblaniad organ ac yn llai tebygol o gael eu cynrychioli ar y gofrestr rhoi organau.

Argymhellion ar gyfer gweithio gyda gwahanol grwpiau ffydd

Yng ngoleuni'r canfyddiadau, mae'r adolygiad hwn wedi helpu i ddatgan nifer o negeseuon a dulliau ar gyfer gweithio â gwahanol grwpiau ffydd. Er enghraifft:

- Darparu gwybodaeth am y broses drawsblannu a thawelu camsyniadau mewn perthynas ag anffurfio'r corff ac ymyrryd â phrosesau claddu traddodiadol.
- Ymgysylltu ag arweinwyr ffydd a rhwydweithiau ar lawr gwlad ymhlith grwpiau ffydd a DLIE ble mae eu dylanwad yn bwysig, neu ble ceir lefelau uchel o ddiffyg ffydd mewn meddygaeth. Er enghraifft, gellir defnyddio rôl arweinwyr ffydd mewn cymunedau Mwslimaidd i greu mwy o ymwybyddiaeth o safiad Islam ar roi organau.
- Mae ymgysylltu ag arweinwyr ffydd yn bwysig hefyd pan mai prin yw eu gwybodaeth hwythau am y broses o roi organau.
- Efallai y bydd dull o weithredu o dan arweiniad cymheiriaid yn effeithiol mewn

cymunedau ble mae cysylltiadau teuluol yn ffynhonnell hynod bwysig ar gyfer cael gwybodaeth iechyd sy'n ddiwylliannol sensitif.

Y bylchau yn y dystiolaeth ar hyn o bryd

- Yn olaf, mae'r adolygiad hwn wedi canfod bylchau yn y dystiolaeth ble gallai rhagor o ymchwil ychwanegu gwerth at y strategaethau cyfathrebu ac ymgysylltu. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:
- I ba raddau y mae safbwyntiau arweinwyr crefyddol am roi organau a chydsyniad tybiedig yn dylanwadu ar safbwyntiau dilynwyr llyeg neu'n eu hadlewyrchu. Mae'r arolwg ar Gristnogion sy'n byw yng Nghymru sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn yn rhoi ychydig o wybodaeth am hyn ond gallai rhagor o ymchwil fod yn ddefnyddiol.
- Byddai mwy o ymchwil gyda Mwslimiaid o wahanol ethnigrwydd o gymorth er mwyn datrys cymhlethdod credoau diwylliannol a chrefyddol.
 - O blith y prif grefyddau, mae'r ddealltwriaeth o agweddau Bwdhyddion, Hindwiaid a Sikhiaid yn arbennig tuag at gydsyniad tybiedig yn brin iawn.

Joanne Blake

Prifysgol Caerdydd, ar interniaeth a noddir gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol yn Llywodraeth Cymru

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:

Ian Jones

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 3411

E-bost: ian.jones@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru

30 Gorffennaf 2015

ISBN 978 1 4734 4342 6

© Hawlfraint y Goron 2015



Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol.

<http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/>